

Gwers 6 –
Dweud eich
dweud



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cyfranogiad

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Dweud eich dweud

Amcan Dysgu:

- Rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu llais y disgyblion
- Rhoi cyfle i'r disgyblion ddweud eu dweud a rhannu profiadau neu faterion sy'n effeithio arnyn nhw

Er budd i'r myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu cynnig eu syniadau a'u barn eu hunain ar gyfer beth hoffen nhw ei weld yn digwydd yn y dosbarth/yn yr ysgol

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi neu adnabod rhywbeth maen nhw eisiau ei wella neu ei newid

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn cael profiad o rywun yn clywed eu llais

Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Beth mae cymryd rhan yn golygu?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth maen nhw'n ei wneud yn dda?
- All unrhyw un feddwl am rywbeth hoffen nhw roi cynnig arno?

Deunyddiau/Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – “Cyfranogiad”
- Pecyn lluniau - Cyfranogiad
- Cadair / Sedd Boeth
- Llyfryn Fy Hawliau i
- Gwrthrychau i gyfeirio atynt

- Pecyn symbolau

Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion.

Siaradwch â'r dosbarth am Erthygl 12, yr hawl i gael gwrandawriad ac i gael eich cymryd o ddifri. Esboniwch wrth y dosbarth fod ganddyn nhw hawl i gyfranogi fel aelod gweithredol o'r ysgol, a dangoswch iddyn nhw eu bod nhw a'u syniadau'n werthfawr fel aelodau o'r ysgol.

Esboniwch y term "llais y disgybl" ac esboniwch rôl cyngor yr ysgol neu grwpiau eraill llais y disgybl. Efallai bydd plant a phobl ifanc am rannu eu profiadau eu hunain o fod ar gyngor yr ysgol neu grwpiau eraill llais y disgybl.

Rhannwch y pecyn lluniau Cyfranogiad gyda'r dosbarth a siarad am bob erthygl y mae'r lluniau'n eu cynrychioli. Defnyddiwch y Pecyn Symbolau neu'r gwrthrychau cyfeiriadol i gefnogi syniadau a dysgu.

Darllenwch y Stori Gymdeithasol Cyfranogiad gyda'ch gilydd.

Awgrym ar gyfer gweithgaredd grŵp: Mae'r gweithgaredd hwn yn gyfle i blant deimlo eu bod yn cael eu gweld a'u clywed.

Gwahoddwch y grŵp i eistedd mewn cylch fel bod modd gweld a chynnwys pawb. Bydd pob plentyn unigol, yn eu tro, yn gwneud symudiad/sŵn neu'r ddau, ac yna bydd y grŵp yn adlewyrchu hynny'n ôl atyn nhw. Gallwch chi rannu hyn yn gamau, er enghraifft:

- a) Yn y rownd gyntaf gwahoddwch y plant i wneud sŵn â'u llais (os yw'r plant yn teimlo'n nerfus gallan nhw gael eu cefnogi i feddwl am thema fel anifeiliaid ac ati)
- b) Ar gyfer yr ail rownd, gwahoddwch y plant i wneud symudiad (gall fod yn symudiad mawr neu fach – beth bynnag sy'n teimlo'n iawn i'r plentyn)
- c) Ar gyfer y drydedd rownd, gwahoddwch y plant i wneud sŵn a symudiad

Bydd ailadrodd y gweithgaredd yn helpu'r plant i ymlacio ac ymateb yn fwy byrffyr bob tro. Bydd ailadrodd hefyd yn cryfhau'r teimlad o gael eu gweld a'u clywed gan y grŵp. Mae'n bosib cynnwys offerynnau taro bychan yn y gweithgaredd hwn.

Prif Weithgaredd: Gweithgaredd Cadair Boeth

Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am agwedd ar yr ysgol neu'r dosbarth y bydden nhw'n hoffi gwneud mwy ohoni neu agwedd y bydden nhw'n hoffi ei newid neu eu datblygu petaen nhw'n cael cyfle. Rhowch amser meddwl addas i'r dysgwyr, neu sgaffaldiau os bydd angen. Dylech ddefnyddio syniadau'r disgyblion eu hunain lle bynnag y gallwch.

Gofynnwch i'r disgyblion gymryd tro i eistedd yn y gadair boeth a rhannu beth hoffen nhw ddatblygu yn y dosbarth. Efallai bydd disgyblion eraill neu staff y dosbarth yn dymuno gofyn cwestiynau am syniadau'r disgybl.

Mae'n bwysig IAWN bod pob syniad yn cael ei gymryd o ddifri, ac os oes modd, bod y staff yn cymryd camau i ymateb iddynt.

Tasg estyn: Gallai hyn fod yn gyfle gwych i gynnal gwasanaeth neu gyflwyno'r syniadau hyn i Dîm yr Uwch-Arweinwyr, er mwyn iddyn nhw glywed barn y disgyblion.

Parhaus: Llenwch dudalen 6 o'r Llyfryn Fy Hawliau i (Yn yr ysgol, rydw i'n hoffi...)

Sesiwn Lawn:

Fel dosbarth, crynhowch y wers:

- Beth rydyn ni wedi dysgu heddiw?
- Allwch chi gofio syniad rhywun?
- Sut deimlad oedd bod yn y Gadair Boeth?

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu'n rhoi hwb i AFL, wrth i'r dysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dealltwriaeth o ystyr cyfranogiad. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers, ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion priodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectrw m Awtistig (ASD)/lefel isel â PECS/lluniau cyfeiriadol
- Cefnogi Dysgwyr ag Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD) gan ddefnyddio dangosyddion y mae modd eu harsylwi

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) neu e-bostio post@complantcymru.org.uk